# Job



# Cyflwyniad

Yr wythnos yma byddwn yn dysgu am fywyd Job fel adroddwyd yn llyfr Job. Roedd Job yn ddyn da a chyfoethog cafodd ei brofi pan gollodd popeth. Rhai o'r prif bwyntiau byddwn yn astudio yw:

- Dylwn foli Duw pan rydym yn teimlo'n hapus neu yn drist.
- Dylwn fod yn ofalus i bwy rydym yn gofyn am gyngor. Rhoddodd gwraig Job a'i ffrindiau gyngor drwg iddo.
- Mae Duw bob amser gyda ni, hyd yn oed pan rydym yn cael diwrnod drwg iawn.
- Dylwn garu Duw dim o achos y pethau mae E'n rhoi i ni, ond oherwydd pwy yw E.
- Roedd yr Iesu yn fodlon rhoi'r gorau i bopeth oedd ganddo i'n hachub. (Philipiaid 2:6-11)

## Cynllun y wers

Siaradwch â'ch plentyn am Job ac eglurwch ei fod yn ddyn cyfiawn. Eglurwch ei fod yn byw bywyd oedd yn plesio Duw. Siaradwch am rhai o'r pethau gallwn ni wneud sy'n gwneud Duw yn hapus.

Rhannwch fel oedd Duw wedi ei fendithio gyda llawer o feddiannau. Gallwch drafod y bendithion oedd gan Job (camelod, ych, asynnod a.y.b.) Gofynnwch i'r plentyn siarad am rhai o'r bendithion sydd ganddo. Gallwch eu rhestri neu eu darlunio. Atgoffwch y plentyn bod pob anrheg dda yn dod oddi wrth Dduw. Atgoffwch y plentyn dylwn o hyd rhoi clod a diolch i Dduw am y bendithion sydd gennym.

Os hoffech, gallwch wneud Coeden Diolchgarwch. Dewiswch gangen coeden gyda llawer o ganghennau arno (i edrych fel coeden.) Gosodwch mewn pot a'i angora gyda cherrig. Pob dydd ysgrifennwch rywbeth newydd ar ddarn o bapur a'i hongian ar y "goeden". Gallwch hyd yn oed gofyn i ymwelwyr i'ch cartref eich helpu i lenwi'r goeden gyda bendithion. Mae gennych chi hefyd yr opsiwn o greu siwrnal diolchgarwch. Gallwch un ai ysgrifennu, tynnu llun neu dorri allan lluniau cylchgrawn i gynrychioli'r bendithion mae Duw wedi rhoi i chi.

Meddyliwch am rhai o'r bendithion byddai'r plentyn yn hoffi cael. (Mae hyn yn arbennig o ystyrlon gyda'r Nadolig yn dod.) Siaradwch am yr adegau rydym yn meddwl byddwn yn hapus os gawn fendith arbennig – fel tegan newydd. Meddyliwch am degan neu rywbeth arall roedd y plentyn eisiau, wedyn trafodwch pa mor hir oedd y plentyn yn hapus cyn roeddynt eisiau rhywbeth arall. Siaradwch am yr amser gofynnodd y plentyn am rywbeth gan addo byddent yn eich caru am byth os byddent yn ei gael. Meddyliwch pa mor hir oedd yr agwedd yna wedi parhau. Gallwch hefyd ddefnyddio'r enghraifft o losin neu gacen. Rydym yn ei fwynhau wrth i ni ei fwyta ond byddwn bob amser yn cael ein temtio i gael mwy. Eglurwch dylwn bob amser garu Duw heb feddwl am y meddiannau mae'n rhoi i ni oherwydd bydd y meddiant yn torri neu yn diflannu ond bydd Duw byth yn gwneud hyn. Rhyfeddwch ar yr anrheg anghredadwy o fywyd tragwyddol mae wedi cynnig i bawb sy'n credu ynddo Ef.

Siaradwch am gyngor. Eglurwch mai cyngor ydy pan mae rhywun yn dweud wrthych beth maen nhw'n meddwl dylech chi wneud. Siaradwch am sut mae cyngor da a chyngor drwg. Os ydy'ch plentyn yn ddigon hen, gallwch chwarae gem gyda'ch plentyn i ddangos hyn. Gosodwch lawer o bethau bwyd ar y bwrdd. Dylai bod dewis eang o ychydig o halen, darn o lemwn, losin ffefryn y plentyn, mel a.y.b. Y peth gorau yw bod o leiaf rhai bwydydd mae'r plentyn yn anghyfarwydd gyda. Efallai gallwch wneud taith siopa i ddewis rhai bwydydd sy'n anghyfarwydd i chi. (Defnyddiwch ofal a phryder bod dim yn achosi'r plentyn i dagu neu i fod yn sâl.) Gofynnwch i'r plentyn brofi'r eitemau ac wedyn rhoi cyngor i chi os ydynt yn blasu'n dda neu ddim. Gallwch chi hefyd flasu pethau a chynghori'r plentyn. Siaradwch am efallai bod gennych farn wahanol neu fel mae pobl yn medru dweud celwydd bod y peth yn blasu'n dda. Meddyliwch am bobl dylwn gymryd cyngor oddi wrthynt ac eraill dylen ni ddim. Eglurwch dylai pob cyngor gael ei gymharu gyda beth mae'r Beibl yn dweud.

Siaradwch am sut mae Duw bob amser gyda ni. Trafodwch amserau pan roeddech chi neu eich plentyn yn teimlo'n unig. Eglurwch fod hyd yn oed os ydym weithiau yn teimlo'n ddigalon neu yn unig mae Duw yna. Dewiswch dau fagnet (rhaid iddynt atynnu ei gilydd.) cymerwch ddarn o bapur. Rhowch y magnetau gyda'i gilydd gyda'r papur rhyngddyn nhw. Symudwch y magnet ar yr ochr na all y plentyn ei weld. Bydd yn edrych fel hud o safbwynt eich plentyn. Dangoswch gefn y papur ble mae'r ail fagnet i'r plentyn. Eglurwch mai hyd yn oed pan nad ydynt yn gweld Duw, mae Duw bob amser yna.

Gan ein bod wedi siarad am feddiannau, siaradwch am y pethau roedd yr Iesu wedi rhoi'r gorau iddynt. Darllenwch Philipiaid 2:6-11. Siaradwch am fel oedd yr Iesu wedi rhoi'r gorau i bopeth a dod i'r ddaear i farw am bechodau'r bobl.

Gweddïwch a diolchwch i Dduw am yr Iesu'n dod i'r ddaear. Cofiwch glodfori Duw am bob un o'r bendithion mae wedi rhoi i chi.

© 2025 truewaykids.com



Dysgodd Job bod popeth yn perthyn i Dduw.

Rhoddodd Duw popeth a mwy yn ôl i Job.

Roedd Job yn caru Duw yn fwy na dim byd arall.

Roedd Job yn caru Duw oherwydd bod Duw yn syfrdanol, rasol, doeth a chariadus.



# Job




Roedd Job yn ddyn cyfoethog iawn.

Roedd ganddo lawer o anifeiliaid, tir a phobl i weithio iddo.

Roedd ganddo hefyd deulu mawr. Roedd yn caru ei deulu'n fawr iawn.

Mwyaf pwysig, roedd Job yn caru Duw gyda'i holl galon.



Un diwrnod, dywedodd Satan wrth Dduw bod Job dim ond yn ei garu oherwydd bod Duw yn rhoi llawer o bethau iddo.

Gwyddai Duw nad oedd hyn yn wir. Gadawodd Duw i Job golli popeth.

Roedd Job yn drist iawn. Rhwygodd ei ddillad ac eilliodd ei wallt i ddangos ei fod yn drist iawn.

Roedd Job yn drist, ond roedd dal yn caru Duw.





Nesaf, gadawodd Duw i Job fod yn sâl iawn.

Roedd ei groen wedi gorchuddio gyda chornwydydd.

Roedd Job mewn llawer iawn o boen. Nid oedd yn deall pam bod hyn i gyd yn digwydd, ond roedd dal yn caru Duw.

Dywedodd ei wraig a’i ffrindiau wrtho mai ei fai o oedd hyn i gyd ac i wneud pethau drwg.

Ni wrandawodd Job. Canmolodd Job Dduw.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Mathemateg syml

Casglwch unrhyw wrthrych sydd gennych o gwmpas. Bydd teganau, ffrwythau, losin, creonau i gyd yn gweithio'n wych.
Gofynnwch i'ch plentyn gyfri'r gwrthrychau. Gallwch wedyn adio mwy o wrthrychau neu dynnu rhai i ffwrdd.
Gofynnwch i'ch plentyn eu cyfri eto.
Gofynnwch i'ch plentyn os oes mwy neu lai o wrthrychau yn y pentwr.
Gallwch addasu'r weithred yma i allu'r plentyn.





## Tynnu Gwynebau

Syniad y gweithgaredd yma ydi i helpu eich plentyn ddeall emosiynau a theimladau.
Enwch deimlad i'ch plentyn a gofynnwch iddynt wneud y math yna o wyneb. Gwyneb hapus, gwyneb trist, gwyneb dig ac yn y blaen.
Os oes gennych fwy nag un plentyn gallwch ei wneud yn gystadleuaeth. "Pwy sy'n gallu gwneud yr wyneb hapus gorau?"
Atgoffwch eich plant bod Job yn berson go iawn gydag emosiynau go iawn.

## Mordwyaeth Mwgwd

Rhowch fwgwd ar un plentyn neu oedolyn. Gofynnwch i berson arall rhoi cyfarwyddiadau iddyn nhw i gerdded i le arall. Efallai tuag at gloch i ganu neu sosban i guro.

Siaradwch am fel mae'n rhaid i ni fod a ffydd yn y person sy'n rhoi'r cyfarwyddiadau.

Rhannwch fel oedd gan Job ffydd yn Nuw hyd yn oed pan nad oedd yn medru deall beth oedd yn digwydd o'i gwmpas.




© 2025 truewaykids.com

# Roedd gan Job...



7
meibion



3
merched

500
buchod





3000
camelod

500
mulod





7000
defaid


"Yr ARGLWYDD wnaeth roi popeth i mi, a'r ARGLWYDD sydd wedi cymryd popeth oddi arna i." Job 1: 21

© 2025 truewaykids.com

# Tynnu Ffwrdd



4 - 1 = 3



5 - 2 =



3 - 2 =




4 - 2 =



6 - 3 =

© 2025 truewaykids.com

# Hapus neu Trist










Pa bethau sy’n eich gwneud yn hapus neu yn drist?


Gwneud fi’n hapus

Gwneud fi’n drist

© 2025 truewaykids.com

# Ffeindiwch dau sydd run fath





© 2025 truewaykids.com

# Symudyn Da yw Duw

Helpwch eich plentyn i ddeall bod Duw yn dda ac nid yw byth yn ein gadael, dim ots sut rydym yn teimlo.



## Pethau byddwch angen:

- Cerdyn gwyn
- Y templed
- Peniau, pensiliau neu creonau
- Opsiynol – llygaid gwgli
- Siswrn
- Tâp
- Gwlan

## Beth i'w wneud




Torrwch y templed allan. Defnyddiwch y cylchoedd fel templed di dorri mwy o gylchoedd o'r cerdyn gwyn.



Tynnwch lun emosiynau/ gwynebau ar y cylchoedd gwyn. Glynwch y llygaid gwgli.



Lliwiwch y rhan uchaf a thapiwch y ddau rhan gyda'i gilydd i greu cylch.



Tapiwch ddarnau o wlân ar y cylch.



Tapiwch Gwynebau Emosiynol.



Tapiwch ddarn o wlân ar draws y cylch i'w hongian.

© 2025 truewaykids.com

DA YW DUW

PAN RWYN TEIMLO'N....

© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

## God Is Good

https://youtu.be/vt6TsIAHIgs

## GOD IS SO GOOD

https://youtu.be/eg3bvbDVUTg

## I'm Trusting You

https://youtu.be/0VDpHibftHs





# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw Ei fod yn dda bob amser.

Diolchwch i Dduw am Ei fendithion.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i fod a ffydd ynddo yn ystod amserau anodd.

# Wythnos Nesaf:

## Shadrach, Meshach ac Abednego

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2025 truewaykids.com